

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Deintyddfa Alison Jones

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Ionawr
2022

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mawrth 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Rhif ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Alison Jones fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig ystod o driniaethau GIG a thriniaethau preifat ac mae'n ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig¹ ar 26 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

¹ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut yr ymatebodd y gwasanaeth i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddarparu manylion am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis deintyddol a oedd yn golygu y gallai cleifion gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y drws i'r practis yn cael ei gadw ar glo i ddiogelu'r cleifion a'r staff. Roedd hyn yn sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny oedd ag apwyntiad allai fynd i mewn i'r practis. Yn ogystal, roedd arwydd ar ddrws y practis yn hysbysu'r cleifion o'r mesurau ychwanegol a oedd mewn grym i ddiogelu yn erbyn COVID-19. Eglurodd y rheolwr cofrestredig y gofynnwyd i gleifion fynychu gan wisgo gorchudd wyneb ac y byddai aelod o staff wrth ddesg y dderbynfa yn gofyn iddynt ddefnyddio hylif diheintio dwylo wrth ddod i mewn i'r practis.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod wedi gosod sgriniau plastig clir ar ddesg y dderbynfa i ddiogelu'r cleifion a'r staff. Roedd posteri wedi'u laminadu wedi cael eu harddangos y tu fewn i'r practis hefyd i atgoffa'r cleifion o'r gofynion rheoli heintiau ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19 a'r angen i gadw pellter cymdeithasol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gwaredwyd teganau a chylchgronau o'r ystafell aros a newidiwyd y cadeiriau cyfredol i ddyluniad y gellir ei sychu'n lân. Cafodd y rhain eu lleoli i alluogi'r cleifion i gadw pellter cymdeithasol priodol.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i hysbysu cleifion am y gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff yn ffonio cleifion cyn eu hapwyntiad i egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn. Roedd hyn yn caniatáu'r claf i ofyn cwestiynau, pe bai'n ansicr, cyn iddo gyrraedd y practis.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg ar gyfer pob ardal yn y practis. Roedd y dogfennau hyn yn rhestru risgiau, mesurau rheoli a rhagofalon amrywiol a oedd ar waith i sicrhau amgylchedd practis diogel.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r cyfleusterau ar gyfer y cleifion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd wrthym fod rhai o'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg ar ffurf posteri wedi'u laminadu sy'n ymwneud â thriniaeth GIG. Nid oedd unrhyw wybodaeth arall ar gael yn Gymraeg ac nid oedd y practis yn annog defnydd o'r Gymraeg yn rheolaidd i'r rhai hynny a allai fod yn siaradwyr Cymraeg neu'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n annog cleifion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg pe baent yn dymuno gwneud hynny
- Y gall cleifion gael gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

Nid oedd gan y practis system dolen sain² i gynorthwyo'r cleifion hynny a allai fod yn drwm eu clyw.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael system dolen sain i sicrhau bod y cleifion hynny sydd ag anawsterau clyw yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yn haws.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau'r prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.³ Dywedwyd wrthym fod y practis yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd hyn yn

² Mae dolen glyw (a elwir yn ddolen sain o dro i dro) yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw.

³ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddiau.

golygu y gellid trin cleifion yn ddiogel. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym yr hysbyswyd yr holl staff ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig y practis drwy gyfarfodydd staff anffurfiol rheolaidd. Yn ogystal, byddai canllawiau yn cael eu hargraffu a'u rhoi yn ffolder polisi'r practis i'r staff eu darllen. Dywedwyd wrthym fod y practis hefyd yn defnyddio ap negeseuon ffôn symudol i gadw'r staff yn gyfredol ar newidiadau i ganllawiau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod wedi dyrannu ystafelloedd triniaeth penodol i gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol ac nad ydynt yn cynhyrchu aerosol ar ddechrau'r pandemig. Fodd bynnag, roedd y practis bellach yn gallu cynnig yr ystod lawn o driniaethau ym mhob un o'i ddwy ystafell driniaeth. Dywedwyd wrthym fod yr ystafelloedd triniaeth wedi cael eu clirio o'r holl offer dianghenraid ac y byddai unrhyw ddeunyddiau nad oedd eu hangen ar gyfer triniaeth benodol yn aros mewn droriau na fyddai'n cael eu hagog yn ystod y driniaeth. Yn ogystal, roedd gan bob ystafell driniaeth focs â chaead y gellir ei gloi sy'n cynnwys eitemau a allai fod eu hangen yn ystod apwyntiad ond efallai nad ydynt wedi cael eu paratoi cyn i weithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol ddechrau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod unedau hidlo aer a phurwyr aer⁴ wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth. Roedd hyn yn galluogi'r practis i weithredu gyda'r cyfnod segur lleiaf⁵ o ddeg munud yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol. Yn ogystal, byddai ffenestri yn aros ar agor a rhoddwyd arwydd ar ddrws yr ystafell driniaeth yn cynghori staff bod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol wedi digwydd ac i beidio â dod i mewn hyd nes bod y cyfnod segur wedi gorffen.

Gwnaethom gadarnhau'r broses a gynhelir o wirio nad oedd y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn dangos symptomau COVID-19 gyda'r rheolwr cofrestredig. Fe'n hysbyswyd y byddai cleifion yn derbyn galwad ffôn cyn eu hapwyntiad a gofynnid cyfres o gwestiynau sgrinio iddynt. Byddai'r atebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu teipio a'u cadw yn ffeil cofnod deintyddol y claf.

Pe bai claf yn cyrraedd y practis yn dangos symptomau COVID-19, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y rhoddid cyngor iddo yn gyntaf ac wedyn byddai'n cael gwybod i aildrefnu apwyntiad arall. Pe bai angen apwyntiad ar y claf o hyd, byddai'n cael ei drefnu ar ddiwedd y dydd ar amser pan nad oedd unrhyw gleifion eraill yn bresennol. Byddai triniaethau sy'n cynnwys gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol yn cael eu hosgoi. Byddai'r holl staff yn y practis yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn a byddai cyfnod segur llawn yn cael ei ddilyn. Byddai glanhau ychwanegol yn cael ei wneud hefyd. Roedd hyn yn unol â'r Weithdrefn Weithredu Safonol a ddarparwyd gan y rheolwr cofrestredig. Roedd hyn yn dangos, os oes angen, y gallai cleifion â symptomau COVID-19 gael eu gweld yn ddiogel yn y practis.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl staff a oedd yn ymgymryd â

⁵ Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol sy'n caniatáu i unrhyw ddefnydd setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol wedi cael prawf ffitio cywir ar gyfer masgiau FFP3⁶ a'u bod yn gyfredol o ran hyfforddiant yn y defnydd o gyfarpar diogelu personol uwch, gan gynnwys y dull cywir o'i wisgo a'i ddiosg.⁷ Cyflawnwyd hyn drwy fideos hyfforddi sydd ar gael ar-lein ac roedd yn cael ei atgyfnerthu ymhellach trwy roi posteri mewn lleoedd amlwg mewn ardaloedd gwisgo a diosg. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyrchu cyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, nid oeddent erioed wedi rhedeg allan o gyfarpar diogelu personol. Roedd hyn, ynghyd â chymorth fel y bo angen gan y bwrdd iechyd, wedi golygu y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi COVID-19 cyfredol a oedd â fersiynau wedi'u rheoli, yn ddyddiedig, ac yn unol â chanllawiau cyfredol, yn ogystal â gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer atal COVID-19 a oedd yn unol â'r canllawiau presennol. Cawsom hefyd ddogfen polisi rheoli heintiau a oedd yn cwmpasu pob ardal, archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau'n ddiweddar a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion, a rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer. Cawsom hefyd amserlen lanhau ar gyfer yr holl ystafelloedd triniaeth a oedd yn ystyried y mesurau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am y prosesau ar gyfer sicrhau bod stociau o eitemau deintyddol, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol, yn cael eu cynnal. Dywedwyd wrthym fod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i nyrs arweiniol a oedd yn cael amser bob wythnos i wirio lefelau stoc ac archebu eitemau oedd eu hangen. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o lefelau stoc lleiaf pob eitem yn cael eu cadw. Pe bai'r aelod o staff yn absennol, roedd yn bosibl y gallai lefelau stoc gwmpo'n is na'r lefelau sydd eu hangen i sicrhau'r gwaith o redeg y practis deintyddol yn ddiogel.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw taflen archwilio a chofnodi i sicrhau nad yw stociau o gyfarpar diogelu personol yn cwmpo'n is na'r lefelau digonol.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

⁶ Nodwyd yr angen i wisgo masg FFP3 (amddiffyniad anadlol ar ffurf masg untro ar gyfer y geg a'r trwyn) trwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i amddiffyn rhag pathogenau a gludir yn anadlol. Er mwyn defnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r staff perthnasol gael prawf ffitio'r wyneb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael masg sy'n ffitio'r wyneb mewn ffordd addas a'i fod yn gweithredu i'r effeithlonrwydd gofynnol.

⁷ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

-
- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
 - Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
 - Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau parodrwydd am argyfwng pandemig yn y dyfodol
 - Cynlluniau parhad busnes
 - Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na wnaeth y practis gau yn ystod y pandemig a pharhaodd i roi cymorth a chynghor i gleifion yr oedd eu hangen dros y ffôn. Roedd cleifion yr oedd arnynt angen meddyginiaeth a oedd ar gael ar bresgripsiwn yn unig yn gallu ei chael drwy ragnodi o bell. Roedd y cleifion hynny yr oedd angen llenwadau dros dro arnynt yn gallu casglu citiau llenwad dros dro o'r practis mewn modd diogel, a oedd yn glynu at gyfyngiadau a chanllawiau COVID-19.

Roedd rheolwr y practis yn uchel ei glod o'r staff, a dywedodd wrthym eu bod wedi gweithio'n galed i gefnogi ei gilydd, y practis a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod angen i'r practis, yn anffodus, roi rhai o'r staff ar ffyrlo ar ddechrau'r pandemig, ond gwnaeth barhau i gynnig cymorth i'r holl staff trwy gydol y pandemig. Cafodd y staff eu hannog i fynd at y rheolwr cofrestredig pe byddent yn teimlo bod angen cymorth neu gynghor ychwanegol arnynt. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig hefyd sicrhau bod gan y staff fynediad at linell cynghor a chymorth dros y ffôn.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r gweithdrefnau ar waith ynglŷn â chynnal profion COVID-19 a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyfarwyddyd i gael prawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos.⁸ Dywedwyd wrth unrhyw un a oedd yn dangos symptomau COVID-19 i hunanynysu a chael prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR).⁹

Cawsom wybod bod gan y practis broses archwilio gadarn ar waith a chawsom enghreifftiau sy'n cwmpasu cadw cofnodion, atal a rheoli heintiau, a radiograffeg.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ein hysbysu am y prosesau a gweithdrefnau a oedd yn sicrhau bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys ar gael ac o fewn eu dyddiad. Cawsom wybod bod y nyrs arweiniol yn gwirio cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys bob wythnos. Cafodd dyddiadau dod i ben ar gyfer cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys eu

⁸ Mae prawf llif unffordd yn brawf a wneir gartref gan ddefnyddio swabiau o'r trwyn a/neu'r gwddf i ddangos yn gyflym p'un a yw COVID-19 yn bresennol. Bydd prawf positif yn gofyn i'r defnyddiwr gael prawf PCR a hunanynysu.

⁹ Defnyddir prawf "adwaith cadwynol polymerasau" ("PCR") i benderfynu p'un a yw unigolyn wedi'i heintio â'r feirws COVID-19.

dogfennu a'u rhoi ar hysbysfwrdd yn swyddfa rheolwr y practis. Roedd glwcagon¹⁰ ar gyfer achos brys wedi'i storio mewn oergell neilltuedig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Yn ystod y gwiriad ansawdd, dywedwyd wrthym na chynhelir gwiriadau tymheredd yn rheolaidd ar yr oergell sy'n cynnwys y glwcagon i'w ddefnyddio mewn achos brys. Argymhellir ei fod yn cael ei storio o fewn ystod tymheredd rhwng dau radd Celsius ac wyth gradd Celsius ac, felly, dylid cael ei gadw mewn oergell. Mae'n bwysig bod gwiriad dyddiol o dymheredd yr oergell yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn parhau i gael ei gadw'n gywir a bod unrhyw fethiant yr oergell yn cael ei nodi'n brydlon a chymerir camau priodol. Gallai methu â gwneud hyn olygu bod y glwcagon yn dirywio'n gyflymach na'r disgwyl ac ni ellir gwarantu'r effeithiolrwydd mwyach.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriad tymheredd dyddiol yn cael ei gynnal ar yr oergell sy'n cynnwys y glwcagon i'w ddefnyddio mewn achos brys i sicrhau bod meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achos brys yn cael ei storio'n ddiogel. Mae'n rhaid cynnal cofnod o'r gwiriadau a wnaed a chadw'r cofnod at ddibenion archwilio.

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, darparodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o archwiliad cadw cofnodion a gynhaliwyd yn y practis yn ddiweddar. Roedd hwn yn dangos bod un clinigydd yn methu â nodi hanes cymdeithasol, cymeriant alcohol, cydsyniad cleifion a gwybodaeth glinigol arall. Mae'n bwysig bod y cofnodion deintyddol yn llawn ac wedi'u cwblhau i sicrhau bod ffactorau risg ar gyfer canser y ceg a chysyniad cleifion i driniaeth yn cael eu dogfennu. Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig fod hyfforddiant pellach yn cael ei gynnal yn dilyn yr archwiliad a bod archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd i sicrhau gwelliant mewn cadw cofnodion deintyddol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig barhau i wella'r gwaith o gadw cofnodion deintyddol yn y practis a chynnal archwiliadau dilynol ar sail briodol a rheolaidd i sicrhau gwelliant.

Darparodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben¹¹ a thaflen wybodaeth i gleifion y practis fel rhan o'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer y gwiriad ansawdd. Mae gofyn i bractisau deintyddol sy'n cynnig triniaethau deintyddol preifat gael y dogfennau hyn, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, nid oedd y naill neu'r llall o'r dogfennau hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a oedd yn berthnasol i Loegr ac nid i Gymru ac yn cyfeirio at brosesau sgrinio anghywir a gynhelir ar gyfer cyflogaeth yn y practis deintyddol. Yn ogystal,

¹⁰ Cyffur brys yw glwcagon a ddefnyddir i drin siwgr gwaed isel (hypoglycemia) mewn cleifion diabetig sy'n cael argyfwng meddygol.

¹¹ Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, neu at ddibenion y practis, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

gwelwyd bod gwybodaeth bwysig ar goll o'r datganiad o ddiben, megis y trefniadau ar gyfer preifatrwydd ac urddas, y triniaethau a gynigir gan y practis, a'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion. Nod y dogfennau hyn yw hysbysu'r cleifion am y practis. Gallai gwybodaeth anghywir neu wybodaeth ar goll olygu nad yw'r cleifion yn cael eu hysbysu'n llawn am y triniaethau, y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y practis. O ganlyniad, efallai na allai'r cleifion wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â thriniaeth yn y practis.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddar'u'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Ar ôl ei ddiweddar'u, dylid rhoi'r datganiad o ddiben ar wefan y practis a dylid anfon copi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion at AGIC.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am y gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod digwyddiadau hysbysadwy yn cael eu hadrodd yn brydlon i'r cyrff perthnasol. Mae'r digwyddiadau hysbysadwy hyn yn cynnwys achosion o glefyd heintus neu adegau pryd y gallai fod angen i'r rheolwr cofrestredig fod i ffwrdd o'r practis am gofnod o fwy na 28 diwrnod. Dywedwyd wrthym fod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i reolwr y practis, a oedd yn ymwybodol o ba sefydliad i gysylltu ag ef a phryd. Fodd bynnag, gan nad oedd gan y practis bolisi neu weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hyn, rydym yn argymhell bod un yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod digwyddiadau hysbysadwy yn cael eu hadrodd mewn modd amserol. Byddai hyn yn golygu bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad hwn a gallent weithredu pe na allai rheolwr y practis neu'r rheolwr cofrestredig gyflawni'r cyfrifoldeb hwn am unrhyw reswm.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd unrhyw ddiwyddiadau hysbysadwy i AGIC.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Pan fydd angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Alison Jones Ltd (Caerdydd)

Ward/Adran/Gwasanaeth (dilêwch fel y bo'n berthnasol): Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n annog cleifion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg pe baent yn dymuno gwneud hynnyY gall cleifion gael gwybodaeth trwy gyfrwng y	<p>Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.1: Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Cael gwybodaeth mewn ffurf ddwyieithog lle y gallwn.</p> <p>Cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol ynglŷn â'r llinell iaith sydd ar gael i'r cleifion, a rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r staff.</p>	<p>Alison Jones (prif ddeintydd) Joanne Tyler (rheolwr y practis)</p> <p>Joanne Tyler (rheolwr y practis)</p>	<p>Tri mis</p> <p>Wedi cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar 8/2/22</p>

	Gymraeg				
2	Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael system dolen sain i sicrhau bod y cleifion hynny sydd ag anawsterau clyw yn gallu defnyddio'r gwasanaeth yn haws.	Rheoliad 13 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Gosod offer dolen glyw	Alison Jones (prif ddeintydd)	Mawrth 2022
3	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw taflen archwilio a chofnodi i sicrhau nad yw stociau o gyfarpar diogelu personol yn cwmpo'n is na'r lefelau digonol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8(1)(n)(o)	Datblygu taflen gofnodi o stociau cyfarpar diogelu personol ac wedyn eu cofnodi bob wythnos	Louise Wells (nyrs ddeintyddol)	Wedi dechrau ar 4/2/22
4	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriad tymheredd dyddiol yn cael ei gynnal ar yr oergell sy'n cynnwys y glwcagon i'w ddefnyddio mewn achos brys i sicrhau bod meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achos brys yn cael ei storio'n ddiogel. Mae'n rhaid cynnal cofnod o'r gwiriadau a wnaed a chadw'r cofnod at ddibenion archwilio.	Safon 2.6: Rheoli meddyginiaethau, Deddf Safonau Iechyd a Gofal 2015 Rheoliad 31	Prynu thermometr oergell a chynhyrchu taflen gofnodi ar gyfer cofnodi bob dydd	Shannon Woods (derbynnydd / nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant)	Aros am thermometr i gael ei ddanfôn. I ddechrau'r wythnos sy'n dechrau 21/2/22
5	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig barhau i wella'r gwaith o gadw	Rheoliad 20 o Reoliadau	Archwiliad i gael ei gynnal yn rheolaidd (bob chwech i naw mis)	Nicola Williams (nyrs ddeintyddol)	Mawrth 2022

	cofnodion deintyddol yn y practis a chynnal archwiliadau dilynol ar sail briodol a rheolaidd i sicrhau gwelliant.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017			
6	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Ar ôl ei ddiweddarau, dylid rhoi'r datganiad o ddiben ar wefan y practis a dylid anfon copi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion at AGIC.	Rheoliad 5 a Rheoliad 6 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Diweddarau'r datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth y practis i gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol.	Joanne Tyler (rheolwr y practis)	Ebrill 2022
7	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy i AGIC.	Rheoliad 25 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Cynhyrchu polisi ac wedyn ei drafod yn ystod cyfarfod staff i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei adrodd ac o fewn yr amserlen gywir	Joanne Tyler (rheolwr y practis) Alison Jones (prif ddeintydd)	Mawrth 2022

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Alison Jones

Dyddiad: 14/2/22